CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Iau, 31 Mawrth 2022 – drwy Microsoft Teams

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Joga Singh
Dr Jacqueline Gantley
Dr Harriet Pierpoint
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Ms Jayne Woodward
Rhingyll Sian O'Shea
Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Arolygydd Matthew Hicks
Ms Carol Woodward
Prif Uwch-arolygydd Danny Richards
Mr Martyn Jones
Rhingyll Jennifer Owen
Rhingyll Claire Evans-Bell
Ms Laura Stevenson
Rhingyll Nisha Govani
Ms Amy Davies (Ysgrifenyddiaeth)
Ms Sarah Griffiths (Ysgrifenyddiaeth)
Ms Holly Watson (Cofnodion)

Gwesteion yn Cyflwyno Enghreifftiau o Gyfyng-gyngor Moesegol:
Yr Uwch-arolygydd Martyn Stone
Martyn Jones

Ymddiheuriadau:
Mrs Bronwen Williams
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Ms Nia Brennan
Mr Lee Jones

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y siaradwyr gwadd, yr Arolygydd Martyn Stone a Martyn Jones.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd Sarah Griffiths yn ymddiswyddo o'i rôl fel Ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i Sarah am y gwaith gwych roedd wedi'i wneud ar ran y Pwyllgor. Wedyn, cyflwynodd aelod newydd, Amy Davies, a fydd yn cymryd lle Sarah fel yr ysgrifenyddiaeth.

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 29/03/2021 – Y Cadeirydd

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2021.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a fydd gwaith ychwanegol sy'n cael ei ymgymryd gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n ymgymryd â gwaith (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. **Diweddariad 17.12.2021:**

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
	cael ei gydnabod a'i ariannu a sut bydd hynny'n cael ei wneud.		Bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal mewn perthynas â chydnabyddiaeth am waith ychwanegol a gwblhawyd gan aelodau o'r Pwyllgor. **Diweddariad 31.03.2022:** Cyfarfu'r Cadeirydd â PGC Travis a Lee Jones er mwyn trafod mater cydnabyddiaeth i aelodau'r pwyllgor sy'n gwneud ymchwil yn ychwanegol at eu rôl ar y pwyllgor. Trafodir yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.
10.06.2021.2	Defnyddio Pwerau'r Heddlu/Stopio a Chwilio: John William Devine i arwain gweithgor i nodi enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol/llunio cwestiynau penodol a data i'r Pwyllgor eu hystyried. Bydd y gweithgor yn cynnwys yr Uwch-arolygydd Stone, Martyn Jones, John William Devine, Harriet Pierpoint, Joga Singh a Lee Jones.	John William Devine	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae grŵp gweithredol wedi'i ffurfio a thri chyfarfod wedi'u cynnal. Cynhelir y cyfarfod olaf ym mis Hydref/Tachwedd 2021. Trafododd y grŵp y prif themâu a'r materion moesegol a godir gan stopio a chwilio, data perthnasol a goblygiadau moesegol y data hynny, a datblygiad dogfen friffio. Caiff y ddogfen friffio ei dosbarthu i'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol i'w hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd y grŵp yn canolbwyntio nesaf ar p'un a ddylid defnyddio stopio a chwilio o gwbl yn Ne Cymru, pa fecanweithiau atebolrwydd y dylid eu gweithredu o'i ddefnyddio, a pha heriau moesegol sy'n codi o gyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o stopio a chwilio. **Diweddariad 17.12.2021:** Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod olaf ym mis Rhagfyr 2021. Mae dogfen friffio'n cael ei pharatoi a chaiff ei dosbarthu i'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol cyn y cyfarfod ym mis Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r gweithgor Stopio a Chwilio am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau.
16.09.2021.2	John William Devine a Lee Jones i fwrw ymlaen â'r gwaith ar recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor, gan gynnwys o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.	John William Devine a Lee Jones	**Diweddariad 17.12.2021:** I'w ddatblygu ymhellach yn y Flwyddyn Newydd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng John William, Lee Jones, Nia Brennan ac Ian Vaughan. **Diweddariad 31.03.2022:** Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 12 Ebrill er mwyn trafod y broses recriwtio ar gyfer dau aelod annibynnol newydd.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

4.1 Stopio a Chwilio

Cyflwynodd y Cadeirydd y pwnc 'stopio a chwilio', gan nodi y bydd strwythur y cyfarfod yn debycach i drafodaeth ynghylch polisi na chyfyng-gyngor. Cododd y mater o'r gweithgor a sefydlwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021 lle y trafodwyd stopio a chwilio. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd ailystyried dadleuon ynghylch problemau tragwyddol Moeseg yr Heddlu, gan gynnwys stopio a chwilio, a chynnal profion straen ar y dadleuon hynny. Mae'r mater yn parhau i fod yn un dadleuol iawn ac mae'n bosibl y bydd yr ymateb priodol iddo yn datblygu gydag amgylchiadau sy'n newid a dealltwriaeth newydd. Nod y drafodaeth oedd ystyried a ellir cyfiawnhau stopio a chwilio yng nghyd-destun penodol De Cymru heddiw.

<u>Meysydd ffocws:</u>

Roedd y drafodaeth wedi'i threfnu o amgylch tair agwedd ar fater stopio a chwilio, sef:

1. A ddylid defnyddio stopio a chwilio o gwbl yn Ne Cymru?
2. Pa fathau o atebolrwydd y dylid eu sefydlu os bwriedir defnyddio stopio a chwilio?
3. Sut y dylai Heddlu De Cymru gyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â stopio a chwilio?

Rhoddodd Martyn Jones gyd-destun mater stopio a chwilio:

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Mae Cadeirydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi codi amheuon ynghylch a ddylid defnyddio pwerau stopio a chwilio o gwbl: mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi gofyn y cwestiwn, os na all heddluoedd esbonio'r anghymesuredd yn eu data stopio a chwilio, yna a ddylent roi'r gorau i'w defnyddio.
- Stopio a chwilio yw'r prif ffactor dylanwadol yn genedlaethol o hyd o ran hyder y cyhoedd yn yr heddlu ymhlith grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae'r materion sy'n ymwneud â stopio a chwilio wedi cael sylw o'r newydd yn dilyn marwolaeth George Floyd a phrotestiadau Bywydau Du o Bwys.
- Dengys tystiolaeth hanesyddol, megis y gyfraith 'sus', yr effaith ddinistriol a all ddilyn pan fydd yr heddlu yn defnyddio pwerau stopio a chwilio yn anfoesegol.
- Mae achos diweddar Plentyn Q, lle y cafodd merch ddu 15 oed ei noeth-chwilio gan yr heddlu tra oedd yn yr ysgol, yn enghraifft bellach o'r goblygiadau dinistriol i hyd y cyhoedd a all ddilyn. Amlinellodd yr Adolygiad o Arferion Diogelu Plant Lleol faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn dilyn yr un achos. Hefyd, gwnaed argymhelliad penodol y dylai Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd ymgysylltu â'r Coleg Plismona er mwyn ystyried gwelliannau posibl i'r canllawiau ar seiliau rhesymol sy'n ymwneud â gweithgarwch stopio a chwilio gyda phlant.
- Pwysleisiodd MJ fod angen ystyried yn ofalus beth yw manteision defnyddio pwerau stopio a chwilio o ran plismona gweithredol?
- Mae nifer yr achosion o Ddim Camau Pellach yn Ne Cymru yn darparu un dangosydd o ran y defnydd o bwerau stopio a chwilio sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae mwy o achosion o Ddim Camau Pellach yn codi cwestiynau sylfaenol ynghylch a ellir cyfiawnhau defnyddio'r fath bwerau.
- Daw adroddiad MJ i'r casgliad ynglŷn â'r angen am dystiolaeth i gefnogi effeithiolrwydd stopio a chwilio fel adnodd i leihau nifer y troseddau yn gyffredinol yn ein cymunedau.

Rhoddodd Martyn Stone gyflwyniad ar y ffordd y caiff pwerau stopio a chwilio eu defnyddio gan Heddlu De Cymru ar hyn o bryd:

- mae Heddlu De Cymru wedi bod adolygu'r defnydd o bwerau stopio a chwilio dros y naw mis diwethaf er mwyn nodi a yw'r pŵer yn cael ei ddefnyddio'n anghymesur. Mae ymchwil wedi'i wneud ar feysydd hunan-gofnodedig y mae angen eu gwella.
- Mae stopio a chwilio yn rhan o waith y Grŵp Cynghori Annibynnol sy'n cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn er mwyn adolygiad achosion o stopio a chwilio unigolion ar hap drwy ddeunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff. Mae swyddogion a goruchwylwyr yn cael eu hadolygu ar sail eu barn a'u harferion.
- Mae achosion o stopio a chwilio yn destun craffu annibynnol pellach gan Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Comisiynydd yr Heddlu.
- Mae Heddlu De Cymru wedi ymgynghori ag elusennau a hyfforddwyr allanol er mwyn sicrhau bod swyddogion yn deall cysylltiadau hiliol a stopio a chwilio yn well.
- Mae Heddlu De Cymru wedi darparu hyfforddiant o'r newydd a hyfforddiant gwell ar seiliau rhesymol dros stopio a chwilio.
- Mae penodiadau i'r heddlu sy'n cynnwys cyfrifoldeb arbennig am stopio a chwilio wedi'u gwneud, gan gynnwys:
    - Un pwynt cyswllt (SPOC) i adolygu'r defnydd o bwerau stopio a chwilio o dan a.60;
    - Uwch-arolygydd i oruchwylio'r Defnydd o Bwerau'r Heddlu yn barhaol;
    - Un Pwynt Cyswllt yn yr Unedau Rheoli Sylfaenol ar lefel Prif Arolygydd er mwyn adolygu a goruchwylio perfformiad;
    - Arweinydd tactegol yr Heddlu i ganolbwyntio ar y Defnydd o bwerau Stopio a Chwilio;
    - Cyfrifoldeb goruchwyliol i graffu ar lefelau anghymesuredd a'u hadolygu.
- Rhaid defnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff ym mhob achos o stopio a chwilio. Cysylltir â swyddogion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn bob mis. Cynhelir chwiliadau rheolaidd er mwyn nodi'r rhesymau na chofnodwyd achosion o stopio a chwilio. Ar hyn o bryd, derbynnir camgymeriadau technegol achlysurol neu achosion o fatris yn mynd yn fflat fel esgusodion dros beidio â chofnodi achosion o stopio a chwilio. Fodd bynnag, os bydd swyddog yn stopio ac yn chwilio sawl unigolyn ac yn dewis peidio â'u cofnodi (h.y. mae'n dewis 'disgresiwn y swyddog'), cysylltir â'r swyddog hwnnw (er mai dim ond yn ddiweddar y mae'r penderfyniad i wneud gwaith dilynol fel hyn wedi'i wneud). Anaml y mae angen gwneud gwaith dilynol o'r fath am mai dim ond 2% o achosion o stopio a chwilio nad ydynt yn cael eu cofnodi ac am fod y mwyafrif ohonynt i'w briodoli i broblemau technegol. Mae swyddogion yn arfer ei disgresiwn i beidio â chofnodi mewn tua 1 o bob 200 o achosion o stopio a chwilio.
- Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) wedi adolygu dangosfwrdd stopio a chwilio'r heddlu ac wedi ei gydnabod fel arfer gorau cenedlaethol.

Cafodd ystadegau stopio a chwilio Heddlu De Cymru, rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, eu crynhoi fel a ganlyn:

- Cyfanswm yr achosion o stopio a chwilio – 9896
- Cofnodwyd 98% o achosion o stopio a chwilio ar ddeunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff
- Ar gyfer pob 1x unigolyn gwyn a gafodd ei stopio a'i chwilio, cafodd 1.8 unigolyn BAME ei chwilio,

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Ar gyfer pob 1x unigolyn gwyn a gafodd ei stopio a'i chwilio, cafodd 4.2x unigolyn Du ei stopio a'i chwilio,
- Mae nifer yr achosion o stopio a chwilio yn lleihau ac mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol wedi cynyddu i 29%.

Cyflwynodd Martyn Stone y dangosfwrdd stopio a chwilio i'r grŵp, gan dynnu sylw at unrhyw wahaniaethau o ran achosion o stopio a chwilio rhwng heddluoedd.

Rhagor o wybodaeth:
Mae'r Dangosfwrdd yn galluogi'r heddlu i ddadansoddi data stopio a chwilio yn ôl meysydd ffocws, megis rhyw, oedran ac ethnigrwydd. Dengys meysydd â chyfradd canlyniadau cadarnhaol isel y gall fod materion y mae angen mynd i'r afael â nhw o ran barn, rhagfarn neu brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r dangosfwrdd yn dangos cofnod o hanes stopio a chwilio swyddog, gan alluogi'r heddlu i fesur unrhyw ddefnydd anghymesur o bwerau stopio a chwilio ar grwpiau pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae data troseddau a stopio a chwilio wedi'u cyflwyno fel adnodd er mwyn sicrhau bod swyddogion ond yn chwilio pobl pan fo trosedd (yn seiliedig ar dystiolaeth). Mae'r heddlu wedi rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant stopio a chwilio ac mae hyn wedi'i ymgorffori mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Cyn bo hir, caiff panel ieuenctid ei sefydlu er mwyn adolygu achosion o stopio a chwilio yn Ne Cymru a chraffu ymhellach arnynt.

Y camau nesaf i Heddlu De Cymru yw:

- Gweithredu ar adborth gan HMICFRS ar ôl derbyn ei hadroddiad;
- Parhau i fapio troseddau er mwyn sicrhau bod ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth;
- Adolygu'r seiliau cofnodedig dros stopio a chwilio a chraffu arnynt (GO WISELY);
- Hyfforddi swyddogion a meithrin eu hyder mewn perthynas â defnyddio'r pŵer. Yn achos swyddogion rheng flaen, mae a wnelo hyn â hyder yn y ddeddfwriaeth, gofynion GOWISELY (y wybodaeth sydd angen ei throsglwyddo i'r sawl sy'n cael ei chwilio) ond, yn bwysicach na dim, yr hyn sy'n gyfystyr â seiliau rhesymol. Ar gyfer goruchwylwyr, mae'r un peth yn wir ag yn achos goruchwylwyr, ond fe'i hategir gan yr angen i feithrin hyder o ran sut i archwilio ac adolygu achosion o stopio a chwilio, sut i lunio barn resymegol ynglŷn â chwrteisi a pharch a sut i ddeall seiliau rhesymol a'r ffordd orau o'u cofnodi.

Cwestiynau er mwyn cael eglurhad:

- Os mai dim ond dair neu bedair gwaith y flwyddyn y bydd swyddogion yn defnyddio pwerau stopio a chwilio, ar gyfartaledd, sut mae'r heddlu yn sicrhau bod swyddogion yn cynnal lefel sgiliau cymwys? (JG)
    - Darperir hyfforddiant ar stopio a chwilio bob blwyddyn.
    - Mae'r broses ddigidol stopio a chwilio yn nodi'r camau y mae'n rhaid i swyddogion eu dilyn wrth iddynt gofnodi achosion o stopio a chwilio (e.e. rhoi gwybod i'r sawl sy'n cael ei chwilio fod ganddo hawl i gael cofnod chwilio).
    - Mae hapsamplu adolygiadau yn annog swyddogion i ystyried eu barn ac adnewyddu eu dealltwriaeth o broses GO WISELY.
- A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i dynnu'r pŵer i stopio a chwilio unigolion yn ôl neu ei hatal dros dro yn achos timau â chyfradd canlyniadau isel iawn? (HP)
    - Nododd MS na fyddai tynnu'r pŵer i stopio a chwilio yn ôl ar gyfer timau penodol yn cael effaith uniongyrchol ar gyfraddau anghymesuredd. Yn hytrach, dim ond lleihau nifer yr achosion o stopio a chwilio a wnâi.
    - Ychwanegodd MS fod hyn yn ailadrodd y cwestiwn sylfaenol am y defnydd o bwerau stopio a chwilio: 'is the negativity that the force receives on account of its use so disruptive to community relations that it is not worth detecting those crimes?'
    - Awgrymodd HP y gallai'r cysylltiadau cymunedol gwell a allai ddeillio o'r penderfyniad i dynnu pwerau stopio a chwilio yn ôl o rai ardaloedd alluogi'r heddlu i gael gwybodaeth am droseddau mwy difrifol gan y byddai unigolion yn fwy parod i roi gwybod am droseddau, hyd yn oed os collir rhai troseddau llai difrifol (a fyddai'n cael eu nodi drwy stopio a chwilio unigolion).
- A yw'r ddyfais a ddefnyddir gan swyddogion i gofnodi achosion o stopio a chwilio yn darparu ar gyfer testun rhydd? (HP)
- A yw pob swyddog yn cwblhau'r daflen wybodaeth sydd ei hangen wrth gofnodi achosion o stopio a chwilio? (JS)
- Ai safbwynt yr heddlu yw bod yn rhaid defnyddio camera fideo a wisgir ar y corff bob tro y caiff rhywun ei stopio a'i chwilio, neu a yw'r heddlu yn caniatáu i swyddogion arfer eu disgresiwn? (JS)
    - Cadarnhaodd MS fod yn rhaid defnyddio camera fideo a wisgir ar y corff bob tro y caiff rhywun ei stopio a'i chwilio, oni bai bod rheswm da dros beidio â'i ddefnyddio. Yr yr achos hwnnw, rhaid rhoi rheswm (rhesymau) er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â'i ddefnyddio.
- A yw'r heddlu yn cofnodi data achosion o stopio a chwilio lle nad yw'r unigolion yn cael ei chwilio? (JWD)
- A yw swyddogion wedi cael eu hannog i beidio â defnyddio pwerau stopio a chwilio ers i'r mater ddod yn destun y fath craffu? (JWD)

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Mae tystiolaeth bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o bwerau stopio a chwilio. Mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli i'r hyfforddiant rhagfarn hiliol rhagweithiol y mae pob swyddog wedi'i gael neu'r ffaith bod swyddogion yn cael eu hatal rhag defnyddio'r pwerau gan lefel y gwaith archwilio a chraffu sydd bellach yn dilyn achos o stopio a chwilio.

- Sut y byddai'r heddlu yn cyfathrebu â'r cyhoedd petai pwerau stopio a chwilio yn cael eu tynnu'n ôl mewn ardaloedd penodol? (JWD)
  - Bydd yr heddlu yn mynd allan i gymunedau yn fuan ac mae arolygon lleol wedi'u cwblhau. Dengys yr arolygon nad yw'r cyhoedd yn pryderu cymaint am stopio a chwilio ac y mae'r wasg yn ei awgrymu.
  - Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd yr heddlu yn cynnal arolwg o 110,000 o bobl er mwyn cael eu hadborth ar stopio a chwilio.
- A yw achosion o stopio a chwilio lle mae swyddog yn dod o hyd i rywbeth nad oedd yn chwilio amdano yn cael eu hystyried yn ganlyniad cadarnhaol? Er enghraifft, petai rhywun yn cael ei stopio a'i chwilio am fod swyddog yn amau bod ganddo gyllell ond ei fod yn canfod, yn y pen draw, mai dim ond swm bach o gyffuriau hamdden sydd ganddo, a fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol? (JWD)
  - Mae'r heddlu yn ystyried bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol ond mae'n gwahaniaethu rhwng prif ganlyniadau cadarnhaol a chanlyniadau cadarnhaol eilaidd. O'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol o 29%, roedd 23.9% yn brif ganlyniadau cadarnhaol ac roedd 5.1% yn ganlyniadau cadarnhaol eilaidd.
- A oes unrhyw ddata economaidd-gymdeithasol ar gael ar gyfer stopio a chwilio? (JWD)
  - Mae'n amlwg bod yr heddlu yn cael eu galw'n amlach i ardaloedd difreintiedig ac, felly, mae hyn wedi cynyddu cyfraddau anghymesuredd.
- A yw'n bosibl bod a wnelo prif fath o anghymesuredd mewn achosion o stopio a chwilio â phwy sy'n cael ei *chwilio* ac nid pwy sy'n cael ei *stopio* ar ôl i unigolion gael eu stopio (e.e. mae pobl wyn sy'n cael eu stopio yn llai tebygol o gael eu chwilion o gymharu â phobl ddu sy'n cael eu stopio)? A yw'r anghymesuredd yn codi yn y penderfyniad i beidio â chwilio unigolion ar ôl iddo gael ei stopio am ei bod yn bosibl na fydd y math hwn o anghymesuredd yn ymddangos mewn data presennol sy'n canolbwyntio ar chwilio? Os oes anghymesuredd i'w weld mewn data 'stopio heb chwilio', a allai'r heddlu fod yn cynnal rhy ychydig o chwiliadau ac, mewn gwirionedd, a oes angen iddo chwilio mwy o bobl wyn? (JWD)
  - Cododd MS bryderon ynghylch y mater hwn mewn perthynas â chyfraddau canlyniadau: gallai mwy o chwiliadau arwain at gyfradd canlyniadau isel ymhlith achosion o chwilio pobl wyn a chyfradd canlyniadau uchel ymhlith achosion o chwilio pobl ddu. Mae'n bwysig bod y gyfradd canlyniadau yn gyson.
- Er mwyn ysgogi trafodaeth unwaith eto, a yw'r data yn gwahaniaethu rhwng 'poblogaethau preswyl' a 'phoblogaethau sydd ar gael'? Mae rhywfaint o lenyddiaeth yn awgrymu y gellir priodoli anghymesuredd, o leiaf yn rhannol, i'r ffaith bod poblogaethau penodol yn treulio mwy o amser mewn mannau cyhoeddus nag eraill. Mae'r poblogaethau hynny sy'n treulio mwy o amser mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig gyda'r nos, yn fwy tueddol o gael eu chwilio na phoblogaethau eraill. Os yw hynny'n wir, a fyddai hyn yn awgrymu y dylai data ganolbwyntio ar boblogaethau sydd ar gael yn hytrach na phoblogaethau preswyl wrth asesu anghymesuredd? (JWD)
  - Cadarnhaodd MS y bydd data'r cyfrifiad ar gael yn fuan.
  - Ychwanegodd MS hefyd ei bod yn bwysig peidio â chanolbwyntio gormod ar ystadegau a ffigurau am fod rheswm da dros ddadlau o'u plaid ac yn eu herbyn.
  - Y mesur pwysicaf yw cymharu Heddlu De Cymru yn erbyn heddluoedd eraill o faint tebyg.
- A yw cymesuredd, o reidrwydd, yn gyfiawn ac a yw anghymesuredd, o reidrwydd, yn anghyfiawn? (JWD)
- A yw statws cyflogaeth yn fetrig ar y dangosfwrdd stopio a chwilio? (JWD)
  - Cadarnhaodd MS nad yw data statws cyflogaeth yn cael eu casglu.
- A yw'r data yn gwahaniaethu rhwng achosion o chwilio pobl ar y stryd ac achosion o chwilio pobl drwy stopio ceir?
  - Cadarnhawyd MS nad yw'r data yn gwahaniaethu rhyngddynt.
  - Awgrymodd JWD y gallai fod yn ddefnyddiol casglu'r data hyn am ei bod yn fwy anodd gweld pwy sydd mewn cerbyd, yn enwedig gyda'r nos, ac, felly, y gallai'r data fod yn llai agored i broffilio hiliol o gymharu ag achosion o stopio a chwilio ar y stryd.
  - Byddai'n ddiddorol cadarnhau a oes mwy, llai neu'r un lefel o anghymesuredd rhwng achosion o chwilio pobl ar y stryd o gymharu ag achosion o chwilio pobl mewn cerbydau?

<u>Rhagor o wybodaeth:</u>

Mae'n anodd cadarnhau a yw stopio a chwilio yn adnodd defnyddiol am nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu beth allai ddigwydd petai'n dod i ben. Gellir rhagweld y bydd Heddlu De Cymru yn canfod llai o droseddau. Ar gyfartaledd, canfyddir tair mil o droseddau drwy stopio a chwilio pobl bob blwyddyn. Mae pa mor 'bwysig' yw'r troseddau hyn yn fater goddrychol ond yr hyn sy'n achosi mwy o bryder yw mai canfod llai o droseddau yw canfyddiad y cyhoedd bod yr heddlu yn anweithgar neu y bydd yr unigolyn sy'n cael ei atal rhag cario cyllell ar hyn o bryd gan y posibilrwydd y caiff ei stopio a'i chwilio yn dod yn gyfforddus â chario cyllell os na fydd pwerau stopio a chwilio ar gael i'r heddlu.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Nid yw barn a gasglwyd o ymgynghoriadau a gweithgorau yn awgrymu y dylai stopio a chwilio ddod i ben. Fodd bynnag, maent yn cydnabod y gallai'r pwerau fod yn cael eu defnyddio mewn ffordd annheg.

Y cwestiwn dan sylw:
A ddylai pwerau stopio a chwilio gael eu defnyddio yn Heddlu De Cymru?

Cwestiynau a godwyd/Sylwadau a wnaed:

- A oes unrhyw ddata ar gael gan heddluoedd sydd wedi tynnu pwerau stopio a chwilio yn ôl mewn ardaloedd penodol? Os felly, a yw atal pwerau stopio a chwilio yn arwain at gynnydd yn nifer y troseddau? (JWD)
- A yw pwerau stopio a chwilio yn rhoi gormod o ddisgresiwn i swyddogion yr heddlu? (JWD)
- A yw Heddlu De Cymru yn fodlon mai 'anghymesuredd' yw'r fframwaith cywir i'w ddefnyddio i werthuso a yw stopio a chwilio yn foesegol dderbyniol? Os nad anghymesuredd, pa feini prawf y dylid eu defnyddio i werthuso stopio a chwilio yn foesegol? (JWD)
- Mewn achosion lle y mae deunydd fideo o gamerâu a wisgir ar y corff yn dangos nad yw swydd wedi cyrraedd y safonau gofynnol, a oes proses ar waith er mwyn ymdrin ag achosion llai difrifol nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i'w hatgyfeirio at Safonau Proffesiynol? (JWD)
- A allai'r heddlu wneud mwy i fesur ansawdd rhyngweithio mewn achosion o stopio a chwilio neu hyfforddi swyddogion er mwyn meithrin eu gallu i stopio a chwilio pobl mewn ffordd barchus a chwrtais nad yw'n peri risg y caiff y sawl sy'n cael eu stopio a'u chwilio eu cythruddo. (JWD)
- Beth yw'r sefyllfa o ran stopio a chwilio mewn heddluoedd eraill yng Nghymru? (JG)
- Faint o amser y dylai'r heddlu ei ganiatáu i welliannau i atebolrwydd a rhyngweithio gael effaith cyn dod i'r casgliad nad ydynt yn effeithiol o ran mynd i'r afael â'r materion y bwriedir iddynt fynd i'r afael â nhw. (HP)
- I ba raddau y mae arferion stopio a chwilio presennol yn tanseilio cydberthnasau â'r cyhoedd? (JWD)

Rhagor o wybodaeth:

- Mae'r data o ardal Heddlu De Cymru yn nodi bod gan Uned Reoli Sylfaenol Caerdydd boblogaeth fwy o grwpiau pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae stopio a chwilio yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i bob heddlu yng Nghymru.
- Mae problem yn gysylltiedig â'r data, am fod modd dehongli data stopio a chwilio mewn sawl ffordd sy'n aml yn groes i'w gilydd. Caiff yr holl adborth o achosion o stopio a chwilio a adolygwyd ei gyflwyno i Bwyntiau Cyswllt ac yna rhaid iddynt siarad â'r swyddogion perthnasol a dogfennu pob ymateb.
- Caiff pob achos ei adolygu'n oddrychol a gall arwain at gynnal sgyrsiau â swyddogion neu ddarparu hyfforddiant pellach ar eu cyfer.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio hyfforddiant stopio a chwilio yn y diwrnodau hyfforddiant gorfodol y mae pob swyddog yn eu cael bob blwyddyn.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM wedi canmol proses graffu'r heddlu. Yn fewnol, mae tair haen o waith craffu. Mae tîm y Comisiynydd yn cyflawni swyddogaeth graffu fewnol ac allanol. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM yn fodlon ar y ffordd y mae'r heddlu yn ymateb i'r adborth gan y Grŵp Cynghori Annibynnol.

Y cwestiwn dan sylw:
A ddylai Heddlu De Cymru gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch y mater hwn?

Cwestiynau a godwyd/Sylwadau a wnaed:

- Sut y gall yr heddlu wneud mwy i feithrin ymddiriedaeth â chymunedau mewn perthynas â'r mater hwn? (JWD)
- Sut mae'r heddlu yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd? (JWD)

Rhagor o wybodaeth:
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu De Cymru wedi recriwtio 30 o bobl i grŵp cynghori annibynnol, ac mae'r gwaith craffu a wneir gan y grŵp hwn a'r cyngor a roddir ganddo wedi cael derbyniad da. Yn ogystal â gwahaniaethau yn nata pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae gwahaniaethau amlwg mewn data oedran hefyd. Felly, mae Heddlu De Cymru hefyd yn datblygu Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid.

Cwestiwn y Cadeirydd:
Gofynnodd y Cadeirydd y cwestiwn canlynol i aelodau annibynnol y grŵp:

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Ai'r consensws ymhlith yr aelodau annibynnol yw y dylai stopio a chwilio barhau, ar yr amod bod y lefelau presennol o waith craffu yn cael eu cynnal a, lle y bo'n bosibl, eu cynyddu?
    - Cododd HP y pwynt canlynol: gwyddom fod defnyddio pwerau stopio a chwilio yn cael effaith negyddol ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ac, os cadarnheir bod stopio a chwilio yn cael effaith ymylol ar droseddu, felly mae angen i'r heddlu ganolbwyntio ar y rhesymeg a'r cyfiawnhad dros eu defnyddio.
        - Cydnabu MS bwynt HP ond ychwanegodd fod stopio a chwilio yn cael effaith sylweddol ar droseddu gyda chyfradd lwyddo uchaf o gymharu â mesurau eraill a ddefnyddir gan yr heddlu.
    - A yw'r grŵp o'r farn bod y canfyddiad negyddol o stopio a chwilio yn drech na'r miloedd o droseddau y mae'n galluogi'r heddlu i'w canfod bob blwyddyn? (MS)
        - Y broblem yw nad yw maint y canfyddiad a'r effaith negyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio pwerau stopio a chwilio yn Ne Cymru yn hysbys. (JWD)
        - Maentumiodd MS, os bydd yr heddlu yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir, ac os ystyrir ei fod yn decach na'r rhan fwyaf o leoedd o ran cynnal lefel uchel o graffu a dealltwriaeth o'r materion y mae stopio a chwilio yn eu codi, y gallai stopio a chwilio fod yn ddefnyddiol yn Ne Cymru. Cododd MS bryderon yn ynghylch y canlyniadau a allai ddeilio o unrhyw benderfyniad i'r roi'r gorau i ddefnyddio pwerau stopio a chwilio. Awgrymodd MS y dylai'r heddlu fynd i'r afael â materion drwy fabwysiadau arferion tecach.
        - Awgrymodd HP y dylai'r heddlu fonitro cynnydd o ardaloedd lle mae pwerau stopio a chwilio wedi'u tynnu'n ôl. Mae'r canlyniadau a gasglwyd o'r ymchwil hon yn hanfodol i ddod i gasgliad mwy cadarn mewn perthynas â'r cyfyng-gyngor moesegol hwn. Awgrymodd HP y dylid ystyried tynnu pwerau stopio a chwilio yn ôl os bydd data yn parhau i ddangos methiannau.
        - Ystyriodd SO'S fanteision stopio a chwilio o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, gan nodi y gallai cael eu dal â chyffuriau/arfau yn eu meddiant achub rhai pobl rhag camfanteisio. Mae Heddlu De Cymru yn rhoi cyfleoedd i unigolion o'r fath gael y cymorth a'r help sydd eu hangen arnynt.

<u>Crynodeb y Cadeirydd:</u>
Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar dair agwedd ar stopio a chwilio, sef:

1. Defnydd
2. Atebolrwydd
3. Cyfathrebu

1. Y Defnydd o Bwerau Stopio a Chwilio gan Heddlu De Cymru

Rhoddodd yr aelodau annibynnol gefnogaeth amodol i'r cynnig y dylai Heddlu De Cymru barhau i ddefnyddio pwerau stopio a chwilio. Mae'n amhosibl cynnig cefnogaeth fwy cadarn gan nad oes data empiraidd perthnasol ar gael ar ganlyniadau defnyddio pwerau stopio a chwilio. Mae prinder tystiolaeth ynghylch a yw stopio a chwilio yn adnodd defnyddiol i atal troseddau yn Ne Cymru ac i ba raddau y mae'n effeithiol wrth atal troseddau. Nid yw cyfradd lwyddo uchel ar gyfer stopio a chwilio yn golygu ei fod yn effeithiol iawn wrth atal troseddau, gan y gallai defnyddio pwerau stopio a chwilio gael effeithiau eilaidd nas dymunir a fyddai, yn y pen draw, yn rhwystro'r gwaith o atal troseddau. Prin yw'r data ar yr anfanteision sy'n gysylltiedig â defnyddio pwerau o'r fath, o'r effaith ar ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu i barodrwydd y cyhoedd i roi gwybod am droseddau a rhoi gwybodaeth i'r heddlu.

2. Atebolrwydd

Croesawodd aelodau annibynnol y mesurau atebolrwydd helaeth sydd wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pwerau stopio a chwilio'n cael eu defnyddio'n gymesur ac yn gyfreithlon. Dylid nodi'n benodol y dangosfwrdd ar-lein a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru i ddadansoddi data stopio a chwilio. Mae'r dangosfwrdd hwn yn darparu ar gyfer astudio patrymau o'r lefel facro i lawr i achosion o stopio a chwilio gan dimau a swyddogion unigol. Nodwyd nad oes unrhyw gofnodion yn cael eu cadw mewn perthynas ag achosion o stopio pobl lle nad ydynt yn cael eu chwilio wedyn. Dylid deall Stopio a Chwilio fel cyfres o benderfyniadau ar wahân yn hytrach nag un ymarfer. Er gwaethaf y camau sylweddol a gymerir er mwyn sicrhau bod swyddogion yn atebol am y chwiliadau a gynhelir ganddynt, mae'r diffyg data 'stopio'n unig/'stopio heb chwilio' yn golygu bod gan swyddogion gryn dipyn o ddisgresiwn o ran eu pŵer i stopio. Er gwaethaf y bwlch hwn, gwnaeth manylder y data a gasglir gan y dangosfwrdd a'r graddau y mae hyn yn hwyluso'r gwaith o adolygu arferion stopio a chwilio yn Ne Cymru o lefel yr heddlu i lefel swyddogion unigol, argraff ar yr aelodau annibynnol,

3. Cyfathrebu

Ystyriwyd dau fath o gyfathrebu, sef:

- Cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch stopio a chwilio
- Cyfathrebu yn ystod rhyngweithiadau stopio a chwilio

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Ai 'anghymesuredd' yw'r fframwaith priodol i'w ddefnyddio i werthuso a chyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch stopio a chwilio? Nodwyd bod un ffactor (mesur hil) yn rhy gyfyngedig ei gwmpas a bod y broblem yn cael ei deall orau o ran croestoriadedd (e.e. nid hil yn unig, ond y cysylltiad rhwng hil, oedran, rhyw a statws economaidd-gymdeithasol). Fodd bynnag, â hil yn unig y mae a wnelo'r math o anghymesuredd sy'n hawlio sylw'r heddlu ac yn ysgogi trafodaeth gyhoeddus fwyaf. Er y gall fod mwy o anghymesuredd mewn perthynas â grwpiau eraill (e.e. dynion o gymharu â menywod, pobl ddi-waith o gymharu â phobl gyflogedig), hil sydd amlycaf yn wleidyddol ar hyn o bryd ac, felly, dyma'r math o anghymesuredd sy'n cael y sylw mwyaf. Hyd yn oed petai modd nodi metrig mwy priodol, ni roddid unrhyw bwys arno mewn trafodaethau ynghylch a ellir cyfiawnhau stopio a chwilio.

Os mai anghymesuredd o ran hil yw'r metrig amlycaf yn wleidyddol, yna hwn yw'r metrig y mae'n rhaid i Heddlu De Cymru ymdrin ag ef yn ei ohebiaeth ynglŷn â stopio a chwilio. Er bod yn rhaid i'r hinsawdd gyfryngol cyffredinol ynglŷn â'r mater hwn fod yn flaenllaw yng ngohebiaeth yr heddlu, os nad anghymesuredd yw'r metrig mwyaf priodol, ni ddylai'r gwaith o ddadansoddi achosion o stopio a chwilio gael ei bennu'n gyfan gwbl gan naratif y cyfryngau, ac ni ddylid tybio na all naratif y cyfryngau gael ei lywio gan ddull mesur amgen. Felly, gallai chwilio am fetrig amgen yn lle anghymesuredd fod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth ac ymchwil yn y dyfodol.

Cyfathrebu yn ystod Rhyngweithiadau Stopio a Chwilio

Mae perygl y rhoddir blaenoriaeth i'r hyn y gellir ei fesur. Ni ddylid diystyru agweddau ar stopio a chwilio sy'n llai hawdd i'w mesur. Er enghraifft, mae ansawdd y rhyngweithio rhwng swyddogion a'r sawl sy'n cael ei stopio a'i chwilio yn bwysig wrth nodi natur foesegol arferion stopio a chwilio (ac a ellir eu cyfiawnhau'n foesegol).

Dylai hyfforddi swyddogion er mwyn sicrhau bod rhyngweithio o'r fath, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, yn waraidd ac yn gwrtais, fel bod y sawl sy'n cael ei stopio a'i chwilio yn teimlo ei fod yn cael ei barchu drwy gydol yr amser, fod yn rhan ganolog o hyfforddiant stopio a chwilio a chanllawiau ar stopio a chwilio.

Er y gall data ddangos cyfraddau llwyddo uchel a lefel isel o anghymesuredd, profiad bywyd y sawl sy'n cael ei stopio a'i chwilio a'i gymuned sy'n pennu, yn y pen draw, i ba raddau y mae rhyngweithiad stopio a chwilio yn effeithio ar eu hymddiriedaeth a'u hyder.

Dylid sôn am dri mater ategol pwysig hefyd, sef:

- Y diffiniad o 'Ganlyniad Cadarnhaol'
- Ffyrdd o Gynnal Trafodaeth neu Ymchwil Bellach
- Treialu Rhoi'r Gorau i Ddefnyddio Pwerau a Stopio Dros Dro

Y diffiniad o 'Ganlyniad Cadarnhaol'

Gall y diffiniad o 'ganlyniad cadarnhaol' a ddefnyddir mewn data stopio a chwilio fod yn rhy eang neu'n rhy gul.

Gall fod yn rhy eang wrth dybio bod meddu ar swm bach o gyffuriau hamdden yn gyfystyr â chanlyniad cadarnhaol ar gyfer achos o chwilio pan allai niwed difrifol i ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu ddeillio o ryngweithiad o'r fath.

Gall fod yn rhy gul wrth fethu â chofnodi canlyniadau achos o stopio a chwilio nad yw'n ymwneud â throseddoldeb. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai stopio a chwilio fod yn ffordd o alluogi gwasanaethau lles i nodi pobl ifanc sy'n agored i niwed neu y mae eraill yn camfanteisio arnynt. Pan gânt eu chwilio dan amheuaeth o fod yn werthwyr cyffuriau mewn rhwydweithiau llinellau cyffuriau, gall hyn eu dwyn i sylw asiantaethau'r wladwriaeth a all, yn ei dro, eu helpu i ddianc rhag gangiau cyffuriau sy'n camfanteisio arnynt. Ar sail ein dealltwriaeth bresennol o 'ganlyniad cadarnhaol', nid yw'r math hwn o ganlyniad lles plentyn yn cael ei gofnodi mewn ystadegau 'canlyniadau cadarnhaol', am fod y cysyniad yn cael ei ddiffinio o ran canlyniadau cyfiawnder troseddol yn unig.

Ffyrdd o Gynnal Trafodaeth neu Ymchwil Bellach

Ymddengys mai dyma'r adeg briodol i drafod yr arweddau canlynol ar stopio a chwilio neu ymchwilio iddynt ymhellach:

- Metrigau amgen yn lle 'anghymesuredd' ar gyfer gwerthuso stopio a chwilio o safbwynt moesegol;
- Effaith stopio a chwilio ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru, ac effeithiau eilaidd megis tueddiadau adrodd, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle y defnyddir pwerau stopio a chwilio amlaf;
- Mireinio'r syniad o 'ganlyniad cadarnhaol' er mwyn cynnwys canlyniadau lles cadarnhaol sy'n deillio o achosion o stopio a chwilio a hepgor, o bosibl, fân droseddau sy'n ymwneud â bod â chyffuriau yn eich meddiant;
- Data economaidd-gymdeithasol sy'n ymwneud ag unigolion sy'n cael eu stopio a'u chwilio;
- Achosion o stopio o gymharu ag achosion o stopio cerddwyr;
- Nifer a natur yr achosion o stopio unigolion lle nad ydynt yn cael eu chwilio wedyn.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Treialu Rhoi'r Gorau i Ddefnyddio Pwerau a Stopio Dros Dro

Awgrymwyd, er mwyn cael darlun mwy cynhwysfawr o fanteision ac anfanteision gweithredol defnyddio pwerau stopio a chwilio yn Ne Cymru, efallai y cynhelir cynllun peilot lle y rhoddir y gorau i ddefnyddio pwerau stopio a chwilio dros dro mewn ardaloedd penodol am gyfnod penodol. Gallai ardaloedd lle y defnyddir pwerau stopio a chwilio amlwg fod yn arbennig o addas ar gyfer y cynllun peilot hwn. Gellid casglu data, er enghraifft, ar yr effaith y mae peidio â defnyddio pwerau stopio a chwilio yn ei chael ar gysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau, patrymau rhoi gwybod am droseddau a chyfraddau troseddu (os oes unrhyw effaith). Ymddengys fod menter o'r fath yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun newydd lle mae'r defnydd o bwerau stopio a chwilio ond yn cael ei ganiatáu os yw'r defnydd ohonynt yn seiliedig ar dystiolaeth.

5. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Bu'r Cadeirydd yn bresennol yng nghyfarfod y Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021. Nodwyd bod y rhan fwyaf o bwyllgorau moeseg lleol wedi'i chael hi'n anodd denu enghreifftiau o gyfyng-gyngor gan swyddogion. Ymdriniodd yr agwedd fwyaf defnyddiol ar y drafodaeth â ffordd o ddenu enghreifftiau o gyfyng-gyngor. Roedd dulliau o'r fath yn cynnwys lanlwytho dogfen friffio i'r llwyfan a rennir er mwyn esbonio beth yw cyfyng-gyngor a beth mae'r Pwyllgor Moeseg yn ei wneud; anfon negeseuon e-bost at swyddogion unigol ynghylch beth mae'r pwyllgor moeseg yn ei wneud ac atodi'r ffurflen atgyfeirio cyfyng-gyngor; cynnal sesiynau galw heibio i'r pwyllgor y tu allan i'r amserlen arferol o gyfarfodydd lle y gall swyddogion alw heibio a thrafod unrhyw enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol y maent am eu trafod gydag aelodau o'r pwyllgor. Awgrym arall oedd y gallai heddluoedd gasglu gwybodaeth am ganlyniadau achosion o gyfyng-gyngor er mwyn dangos sut mae trafodaethau a chanllawiau pwyllgorau moeseg wedi dylanwadu ar arferion yr heddlu

6. Unrhyw Fater Arall

Ar 4 Mawrth 2021, trafododd y Cadeirydd, Lee Jones a PGC Travis fater cydnabyddiaeth i aelodau'r pwyllgor sy'n gwneud ymchwil yn ychwanegol at eu rôl ar y pwyllgor. Yn ogystal â mater cydnabyddiaeth, trafodwyd a ddylai'r Pwyllgor gael cyllideb y gellid ei defnyddio i ariannu gwaith ymchwil a gweithgareddau eraill, er enghraifft, cyhoeddi hysbysebion i recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor a helpu darpar ymgeiswyr gyda'u cais. O ran gwaith ymchwil, byddai'r gyllideb ar gael i aelodau o'r Pwyllgor yn unig a byddai'n darparu ar gyfer hyd at ddau ddiwrnod o waith ymchwil. Gellid ceisio arian ar gyfer gwaith a fyddai'n gofyn am fwy o amser, o ffynonellau eraill yn Heddlu De Cymru.

Wrth wneud cais am arian o'r gronfa ymchwil, byddai Cadeirydd y pwyllgor hwn yn ystyried y ceisiadau yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil arfaethedig yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y pwyllgor. Byddai'r Cadeirydd hefyd yn ystyried a oes gan yr ymgeisydd y sgiliau a'r profiad priodol i wneud y gwaith ymchwil ac a ellir cwblhau'r gwaith ymchwil o fewn yr amserlen o ddau ddiwrnod.

Awgrymwyd i'r pwyllgor hefyd y dylid datblygu panel ymgynghori. Diben panel o'r fath fyddai llunio rhestr o grwpiau arbenigol y gallai'r Pwyllgor alw arnynt yn ôl ei ddisgresiwn i roi cyngor iddo ar faterion, er enghraifft, materion yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig. Gallai grwpiau o'r fath gynnwys y Panel Ymgysylltu â Phobl Ifanc, y Fforwm Llywodraethu neu'r Grŵp Cynghori Annibynnol.

Gohiriwyd trafod y materion hyn tan y cyfarfod nesaf.

7. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2022

Dydd Mercher, 29 Mehefin, 12:00 - 16:00

Dydd Mawrth, 13 Medi, 0900 - 12:00

Dydd Iau, 8 Rhagfyr, 13:00 - 16:00